



FOOD  
STANDARDS  
AGENCY

---

**Rheoli Tail Fferm ar  
gyfer Diogelwch Bwyd**  
Canllawiau ar gyfer tyfwyr i leihau'r  
risgiau o halogiad microbiolegol ar  
gnydau parod i'w bwyta

---

**2009**

Os ydych chi angen y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol – megis ffurf glywedol, print bras neu Braille – cysylltwch â ni.

Rhif ffôn: 0207 276 8960

## Crynodeb

<b>Cynulleidfa darged:</b>	Tyfwyr cnydau parod i'w bwyta
<b>Cwmpas rhanbarthol:</b>	DU
<b>Statws cyfreithiol:</b>	Mae'r canllawiau'n rhoi cyngor ar arferion da. <b>Nid</b> yw'r gyfraith yn mynnu bod yn rhaid cydymffurfio â'r cyngor hwn.
<b>Diben:</b>	Rhoi cyngor ar sut i ddatblygu cynlluniau diogelwch a fydd yn lleihau'r risgiau o halogiad microbiolegol ar gnydau parod i'w bwyta.

## HANES DIWYGIO

Ysgrifennwyd y nodyn cyfarwyddyd hwn gan Gordon Hickman a Brian Chambers o ADAS, a Tony Moore o Gwasanaethau Labordai Cyf (Labordai ADAS ers talwm) ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Goruchwyliwyd y gwaith o ddatblygu'r canllawiau gan grŵp llywio a gadeiriwyd gan yr ASB ac a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Asiantaeth yr Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth yr Alban, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymdeithas y Pridd, Consortiwm Manwerthu Prydain, y Gymdeithas Bwyd wedi'i Oeri a'r Ffederasiwn Bwyd a Diod.

<b>Diwygiad Rhif</b>	<b>Dyddiad diwygio</b>	<b>Diben y diwygiad</b>	<b>Diwygiwyd gan</b>
1	2009	Canllawiau	Chris Rowswell

## CYNNWYS

<b>DIBEN A STATWS CYFREITHIOL</b>	<b>6</b>
<b>CYFLWYNIAD</b>	<b>6</b>
<b>CWMPAS</b>	<b>7</b>
<b>CNYDAU PAROD I'W BWYTA</b>	<b>7</b>
<b>PRIF FFYNONELLAU HALOGIAD MICROBAIDD</b>	<b>7</b>
<b>BETH SY'N LLADD MICRO-ORGANEBAU PATHOGENIG</b>	<b>8</b>
<b>CAM 1: LLEIHAU RISGIAU CYN SEFYDLU CNWD</b>	<b>8</b>
<b>CAM 2: LLEIHAU RISGIAU AR ÔL SEFYDLU'R CNWD AC YN YSTOD Y TYMOR TYFU</b>	<b>11</b>
<b>CAM 3: LLEIHAU RISGIAU YN YSTOD AC AR ÔL CYNAEAFU</b>	<b>12</b>
<b>CAM 4: RHEOLI CYFFREDINOL</b>	<b>12</b>
<b>FFYNONELLAU GWYBODAETH A CHYNGOR</b>	<b>14</b>
<b>ATODIAD 1: CNYDAU PAROD I'W BWYTA</b>	<b>16</b>
<b>RHEOLI TAIL FFERM AR GYFER DIOGELWCH BWYD</b>	<b>17</b>

## DIBEN A STATWS CYFREITHIOL

1. Paratowyd y cyfarwyddyd hwn i ddarparu cyngor anffurfiol, anorfodol ar reoli a thrafod tail fferm. **Nid** yw'r gyfraith yn mynnu bod rhaid cydymffurfio â'r cyngor hwn.
2. Gall busnesau sydd ag ymholiadau penodol ofyn am gyngor gan eu hasiantaeth orfodi leol, sef adran safonau masnachu/iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol fel arfer<sup>1</sup>.

## CYFLWYNIAD

3. Mae tail fferm, tail solid a slyri, yn cael ei chwalu ar dir amaethyddol er mwyn rhoi'r maeth angenrheidiol i gnydau a gwneud y pridd yn fwy ffrwythlon. Mae tua 96 miliwn tunnell o dail fferm yn cael ei roi ar tua 4.3 miliwn hectar o dir amaethyddol bob blwyddyn yn y DU. Gall y tail hwn gynnwys micro-organebau pathogenig (e.e. *Esherichia coli* O157, *Salmonella*, *Listeria*, *Campylobacter*, *Cryptosporidium* a *Giardia*) sy'n gallu achosi salwch a gludir mewn bwyd. Mae ffactorau fel oed, deiet a rheolaeth anifeiliaid, ynghyd â dylanwadau rhanbarthol a thymhorol yn effeithio ar nifer y micro-organebau mewn tail. Gall y pathogenau hyn hefyd fod yn bresennol mewn dŵr budr, dŵr ffo ar y buarth a thrwytholch o dail sy'n cael ei storio.
4. Gall hyd at 10% o'r man a ddefnyddir i dyfu cnydau parod i'w bwyta dderbyn tail fferm cyn plannu. **Mae'r dull a ddefnyddir i reoli a thrafod tail fferm, yn enwedig y cyfnod storio, yn ffactorau pwysig yng ngoroesiad micro-organebau.** Gall y dull o chwalu tail ar dir ac amseriad y dull hwn effeithio ar y cyfnod mae pathogenau'n goroesi yn y pridd, a'r tebygolrwydd y byddant yn gallu cyrraedd cnydau bwyd. Hefyd, mae tail da byw sy'n pori yn gallu cynnwys micro-organebau pathogenig. Er mwyn lleihau unrhyw risgiau o salwch a gludir mewn bwyd sy'n deillio o ddefnyddio tail fferm a thail da byw sy'n pori, mae angen bod yn ofalus wrth dyfu, cynaeafu a phacio cnydau parod i'w bwyta.

---

<sup>1</sup> Yng Ngogledd Iwerddon yr Awdurdod Gorfodi yw Cangen Sicrhau Ansawdd yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig (DARD).

## CWMPAS

5. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn darparu cyngor ymarferol ar ffyrdd o leihau'r **risgiau** o salwch a gludir mewn bwyd sy'n deillio o halogiad microbiolegol gan dail fferm ar gnydau parod i'w bwyta. Y cnydau hyn yw'r risg **posibl uchaf** i ddiogelwch bwyd o ddefnyddio tail. Mae'r canllawiau wedi'u seilio ar ymchwil, a gyllidwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn bennaf, i achosion o bathogenau a'u goroesiad mewn tail fferm wrth ei storio ac ar ôl ei chwalu ar dir. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i dyfwyr confensiynol ac organig.
6. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i bob cnwd parod i'w fwyta, ond efallai y bydd tyfwyr cnydau risg uwch, fel dail bach neu gnydau parod i'w bwyta eraill a dyfir ar gyfer marchnadoedd arbenigol, yn penderfynu cyflwyno cyfyngiadau mwy llym ar ddefnyddio tail fferm.
7. Mae'r cyfarwyddyd yn darparu cyngor i dyfwyr yn y DU ar gyfer datblygu cynlluniau diogelwch a fydd yn lleihau'r risgiau o halogiad microbiolegol ar gnydau parod i'w bwyta. Synnwyr cyffredin yw llawer o'r argymhellion ac maent eisoes ar waith ar ffermydd. Efallai y bydd eraill yn mynd ag arferion rheoli da gam ymhellach. Amlinellir pedwar cam allweddol ar gyfer lleihau'r risgiau o halogiad microbiolegol yn y cyfarwyddyd hwn.

## CNYDAU PAROD I'W BWYTA

8. Cyfeirir yn gyffredin at gnydau fel salad, ffrwythau a rhai llysiau (gweler Atodiad 1) nad ydynt yn debygol o gael eu golchi cyn eu bwyta fel 'cnydau parod i'w bwyta'. Mae cnydau gyda thymor tyfu byr, fel salad a mefus, yn agored iawn i halogiad microbiolegol.
9. Er y bydd golchi cnydau'n iawn ar ôl eu cynaeafu yn lleihau'r risgiau o salwch a gludir mewn bwyd, nid yw'n sicr o gael gwared ar yr holl ficro-organebau pathogenig, ac nid yw pob cnwd yn cael ei olchi fel mater o arfer. Felly, mae'n bwysig cymryd rhagofalon eraill.

## PRIF FFYNONELLAU HALOGIAD MICROBAIDD

10. Gall halogiad gan dail fferm solid a hylifol ddigwydd pan fydd:-
  - Tail yn cael ei roi ar dir cyn i gnwd ymsefydlu
  - Tail yn cael ei roi ar gnydau sy'n tyfu

- Da byw sy'n pori yn gadael tail ar dir cyn i gnwd ymsefydlu
- Hylif yn llifo o domennydd tail solid ac o gaeau cyfagos ar ôl ei chwalu
- Storfeydd tail solid a phyllau slyri yn gollwng neu'n gorlifo
- Tail yn cael ei gludo gan offer a cherbydau heintiedig
- Yn cael ei gludo gan y gwynt neu gan erosolau
- Da byw neu dail yn heintio dŵr arwyneb a systemau dyfrio
- Da byw ac anifeiliaid anwes yn cael mynediad at dir lle mae cynyddau

## BETH SY'N LLADD MICRO-ORGANEBAU PATHOGENIG

11. Gellir naill ai lladd pathogenau yn y tail ei hun neu ar ôl ei roi ar y tir. Dyma'r prif ffactorau a fydd yn arwain at leihad yn eu niferoedd:-

- **Tymheredd:** Yn gyffredinol, po uchaf yw'r tymheredd y mwyaf fydd yn cael eu lladd. Mae tymheredd dros 55°C yn arbennig o effeithiol. Mae rhewi yn gallu lleihau'r niferoedd hefyd.
- **Golau'r haul:** Mae bod yng ngolau'r haul, a phelydriad uwchfioled yn benodol, yn golygu bod llawer mwy yn cael eu lladd.
- **pH :** Yn gyffredinol, mae micro-organebau yn goroesi orau ar pH niwtral. Mae amgylchedd asid (pH isel) neu alcali (pH uchel) yn eu lladd yn gynt.
- **Sychu:** Yn gyffredinol, mae sychu tail yn lleihau niferoedd y micro-organebau.
- **Amser:** Mae micro-organebau yn marw dros gyfnod o amser. Bydd cyfradd y marw yn dibynnu ar amodau amgylcheddol. Dan rai amodau gallant oroesi am rai misoedd.

12. **Gall pathogenau fel *E. coli* O157 oroesi am fisoedd ar ôl i dail fferm gael ei chwalu neu ei adael ar y tir adeg pori.**

## CAM 1: LLEIHOU RISGIAU CYN SEFYDLU CNWD

### DEWIS SAFLE

13. Gallwch leihau risgiau halogiad microbiolegol trwy ddewis yn ofalus ble byddwch yn tyfu'r cnwd. Ble bynnag y bo modd:-

- Dylech osgoi caeau lle rhoddwyd tail yn ddiweddar neu a gafodd eu defnyddio ar gyfer pori da byw yn ddiweddar. Gall hyn fod yn anodd lle mae manteision tail, o ran ei gynnwys maethol a'r ffaith ei fod yn gwella'r pridd, yn rhan hanfodol o'r system. Ystyriwch a allwch chi fabwysiadu polisi gwrteithio cylchdro, a chwalu tail o flaen cnwd risg isel, er enghraifft grawn.
- I leihau risgiau o halogiad a gludir yn yr aer, dewiswch gaeau sydd ddim yn agos i unedau da byw.
- Dylech osgoi caeau lle mae risg fod hylif yn rhedeg oddi ar y buarth neu'n gollwng o fannau storio tail.

### DEFNYDDIO TAIL WEDI'I STORIO AC WEDI'I DRIN

14. Mae **storio** tail solid a slyri **mewn sypiau** am o leiaf 6 mis (h.y. heb ychwanegu tail ffres at y storfa yn ystod y cyfnod hwn) neu eu trin yn 'weithredol', yn ddulliau effeithiol o ladd pathogenau.
15. Mae **compostio** yn ddull arbennig o effeithiol o reoli pathogenau microbaidd mewn tail solid, ond er mwyn cael y canlyniadau gorau mae'n rhaid i hyn gael ei reoli'n weithredol. Dylid trin y tail i gyd a'i droi'n rheolaidd (o leiaf ddwywaith yn y 7 niwrnod cyntaf) naill ai gyda blaen-lwythwr neu gyda pheiriant pwrpasol i droi compost os yn bosibl. Fe ddylai hyn gynhyrchu tymheredd uchel dros gyfnod o amser (e.e. dros 55°C am 3 diwrnod) sy'n effeithiol i ladd pathogenau a dylid monitro'r tymheredd hwn. Gadewch i'r compost aeddfedu fel rhan o'r broses drin. Dylai'r broses gyfan bara o leiaf 3 mis. Mae gwybodaeth am gompostio ar gael gan nifer o sefydliadau; gweler yr adran 'Ffynonellau Gwybodaeth a Chyngor' am fanylion.
16. Mae **trin slyri â chalch** (ychwanegu calch brwd neu galch tawdd i godi'r pH i 12 am o leiaf 24 awr) yn ddull effeithiol o wneud pathogenau bacteriol yn anactif. Gadewch i'r slyri aeddfedu fel rhan o'r broses trin y swp am o leiaf 3 mis cyn ei roi ar y tir.
17. **Gallwch roi sypiau o dail sydd wedi'i storio neu ei drin ar dir ble rydych chi'n bwriadu tyfu cnydau parod i'w bwyta cyn drilio/plannu.**



**DEFNYDDIO TAIL FFRES**

18. NI ddylech roi tail solid ffres neu slyri (h.y. tail nad yw wedi'i storio mewn sypiau neu ei drin) ar dir o fewn 12 mis i gynaeafu cnwd parod i'w fwyta, gan gynnwys cyfnod o 6 mis o leiaf rhwng rhoi tail a drilio/plannu'r cnwd.
19. Mae angen ystyried bod tail sydd wedi'i adael ar y tir gan dda byw yn gallu cynnwys pathogenau.
20. Dylech adael bwlch o 12 mis rhwng y tro diwethaf i dda byw bori yn y cae ac adeg cynaeafu cnwd parod i'w fwyta, gan gynnwys o leiaf 6 mis rhwng y pori diwethaf a drilio/plannu'r cnwd.

**CRYNODEB O GANLLAWIAU TAIL FFERM AR GYFER CNYDAU PAROD I'W BWYTA**

<b>Ffynhonnell</b>	<b>Rheoli</b>
Chwalu tail solid neu slyri: <b>wedi'i drin neu ei storio mewn swp</b>	✓ Unrhyw bryd cyn drilio/plannu
Chwalu tail solid neu slyri <b>ffres</b>	✗ DIM o fewn 12 mis i gynaeafu a hefyd o leiaf 6 mis cyn drilio/plannu
Da byw yn pori*	✗ DIM o fewn 12 mis i gynaeafu a hefyd o leiaf 6 mis cyn drilio/plannu

\* Lle mae da byw yn pori yn rhan *hanfodol* o'r system ffermio (e.e. mewn rhai systemau organig), dylid cael bwlch o 6 mis o leiaf rhwng cyfnod pori'r da byw a chynaeafu. I leihau'r risgiau ymhellach, dylid dilyn y canllawiau yn y tabl uchod lle mae hynny'n ymarferol bosibl.

**RHOI GWRTAITH AR Y TIR AC YMGORFFORI YN Y PRIDD**

21. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r maetholion mewn tail ac achosi cyn lleied â phosibl o lygredd aer a dŵr, dylech ddilyn y cyngor yn y Codau perthnasol ar Arferion Amaethyddol Da; gweler yr adran 'Ffynonellau Gwybodaeth a Chyngor' am fanylion.

22. Cynlluniwch y mannau storio tail a'u lleoliad yn ofalus er mwyn sicrhau bod risg llygredd dŵr mor isel â phosibl; dylai hyn gynnwys mesurau cyfyngu addas.
23. Taenwch y tail yn gyson hyd wyneb y tir a rhoi sylw dyledus i'r amgylchedd. Cadwch at unrhyw ardaloedd lle na ddylid chwalu tail (e.e. ger cyrsiau dŵr neu dyllau turio) a nodir yn y Cynllun Rheoli Tail. Bydd hyn yn lleihau'r risg o ddŵr ffo yn mynd ar gnydau gerllaw a'u heintio'n anuniongyrchol. Cadwch gofnod manwl o ddyddiadau chwalu'r tail, y math o dail a faint roddwyd.
24. Er y gall golau'r haul ladd pathogenau, dylai'r tail gael ei droi i mewn i'r pridd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd hyn yn lleihau'r posibilrwydd o halogi cnydau'n uniongyrchol yn ogytal â lleihau arogleuon a faint o amonia sy'n cael ei ryddhau.

## CAM 2: LLEIHOU RISGIAU AR ÔL SEFYDLU'R CNWD AC YN YSTOD Y TYMOR TYFU

### CHWALU TAIL

25. Ni ddylai tail ddod i gysylltiad uniongyrchol â chnydau parod i'w bwyta yn ystod y tymor tyfu.
26. **PEIDIWCH â rhoi tail ar gnydau parod i'w bwyta ar ôl drilio/plannu.**

### GWEITHIO YN Y MAES

27. Dylech osgoi rhoi tail ar gaeau cyfagos os gallai hylif tail redeg oddi arnynt a halogi cnydau sy'n tyfu o bosibl. Mae chwalu tail yn gallu bod yn ffynhonnell bosibl o halogi trwy gyfrwng gwynt. Defnyddiwch offer sy'n taflu'r tail yn isel a pheidiwch â rhoi tail ar y tir ar ddiwrnodau gwyntog os yw'r gwynt yn chwythu i gyfeiriad cnydau parod i'w bwyta.
28. Pan fyddwch yn gweithio mewn caeau sy'n cynnwys cnydau parod i'w bwyta, gofâl wch fod yr offer yn lân. Peidiwch â gyrru cerbydau drwy unrhyw dail neu hylif tail ar y ffordd i'r cae.

**DYFRIO A DEFNYDDIO DŴR**

29. Mae dŵr a ddefnyddir ar y fferm yn ffynhonnell bosibl ar gyfer halogiad microbiolegol. Mae'n bwysig iawn nad yw da byw sy'n pori, hylif tail o fannau storio tail, tomennydd tail, a hylif yn ystod neu'n dilyn chwalu tail yn halogi cyrsiau dŵr na ffynonellau dyfrio'n uniongyrchol.

**CADW DA BYW AC ANIFEILIAID ANWES ODDI WRTH GNYDAU SY'N TYFU**

30. Cyn belled ag y bo modd, dylech rwystro da byw ac anifeiliaid anwes rhag cael mynediad at gnydau parod i'w bwyta. Lle bo angen, gofalgwch fod ffensys a gwrychoedd yn gallu cadw stoc draw. Gofynnwch i'r cyhoedd gadw cŵn ar dennyn os oes llwybrau troed yn mynd trwy gaeau lle mae cnydau'n tyfu.

**CAM 3: LLEIHAU RISGIAU YN YSTOD AC AR ÔL CYNAEAFU**

31. Dylai'r canllawiau sy'n dilyn gael eu darllen ar y cyd â chyngor arall ar weithwyr a glanweithdra, protocolau pacio a storio, a chadw rheolaeth ar y tymheredd.

**CYNAEAFU**

32. Gwnewch yn siŵr bod yr holl beiriannau ac offer cynaeafu yn lân. Peidiwch â gyrru cerbydau drwy dail neu ddŵr ffo rhwng y cae a'r safle pacio.
33. Pan fyddwch yn cynaeafu cnydau parod i'w bwyta, gofalgwch fod y cynwysyddion a'r deunyddiau pacio yn lân ac wedi'u diheintio cyn eu defnyddio. Byddwch yn arbennig o ofalus er mwyn sicrhau nad yw'r pridd yn halogi'r cratiau pacio os bydd y cnydau'n cael eu pacio yn y cae ac na fyddant yn cael eu golchi. Cadwch anifeiliaid ac adar allan o'r mannau pacio a'r mannau storio.
34. Ni ddylai pobl fwyta ffrwythau, fel afalau a gellyg sydd wedi dod i gysylltiad â'r tir fel ffrwythau ffres neu sudd heb ei basteureiddio os oes da byw wedi pori yn y berllan o fewn 12 mis i gynaeafu.

**CAM 4: RHEOLI CYFFREDINOL**

35. Dylech gynnwys trin a thrafod, storio a rhoi tail ar y tir yn nadansoddiad y fferm o beryglon diogelwch bwyd neu gynllun Dadansoddi Peryglon a Phwynt

Rheoli Critigol (HACCP) ffurfiol, os yn gymwys, ac o fewn asesiad Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH).

36. Cadwch gofnod bob tro y byddwch yn rhoi tail ar gaeau a fydd yn cael eu defnyddio i dyfu cnydau parod i'w bwyta, gan nodi'r manylion fesul cae – y math o dail, y gyfradd, dyddiad rhoi'r tail, ei ffynhonnell a sut y cafodd ei reoli cyn ei chwalu. Cadwch gofnod o dda byw sy'n pori ar gaeau a fydd yn cael eu defnyddio i dyfu cnydau parod i'w bwyta, gan roi manylion o fath y da byw, y gyfradd stocio a'r dyddiad rhoi'r gorau i bori.
37. Dylech bob amser gadw at Arferion Amaethyddol Da a'r cyfarwyddyd yn y Codau perthnasol, gweler yr adran 'Ffynonellau Gwybodaeth a Chyngor' am fanylion, i sicrhau bod rhoi tail ar dir yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd.
38. Mae rhagor o arweiniad ynghylch glanweithdra gweithwyr a ffyrdd o leihau risg o halogiad microbiolegol i'w gael gan y Cyngor Datblygu Garddwriaeth, y Consortiwm Cynnyrch Ffres a'r Gymdeithas Bwyd wedi'i Oeri, ymysg eraill.

## FFYNONELLAU GWYBODAETH A CHYNGOR

**Asiantaeth Safonau Bwyd:** [www.food.gov.uk](http://www.food.gov.uk), Ffôn: 0207 276 8829

**Cyngor Datblygu Garddwriaeth (HDC),** Ffôn: 01732 848383 neu [www.hdc.org.uk](http://www.hdc.org.uk)  
“Keeping It Clean”. DVD yn darparu arweiniad i dyfwyr ar leihau'r risg o halogiad microbaidd mewn cynydu parod i'w bwyta. Ar gael am ddim i aelodau.

**Cymdeithas Bwyd wedi'i Oeri,** Ffôn: 01536 514 365 neu [www.chilledfood.org](http://www.chilledfood.org)  
*Microbiological Guidance for Produce Suppliers to Chilled Food Manufacturers (ISBN 1-901798-03-8).* Arweiniad i dyfwyr ar brif beryglon diogelwch bwyd microbaidd.

**DEFRA,** Ffôn: 08459 556 000 neu [www.defra.gov.uk](http://www.defra.gov.uk)

- *Code of Good Agricultural Practice for the Protection of Air, Soil and Water.* Gwybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff fferm ac osgoi llygredd dŵr. Gallwch ei lawrlwytho am ddim o: [www.defra.gov.uk/farm/environment/cogap/index.htm](http://www.defra.gov.uk/farm/environment/cogap/index.htm)
- *Fertiliser Recommendations for Agricultural and Horticultural Crops (RB209).* <http://www.defra.gov.uk/farm/environment/land-manage/nutrient/fert/rb209/index/htm>

**Llywodraeth yr Alban,** Ffôn: 08457 741741 neu <http://www.scotland.gov.uk>

- *Prevention of Environmental Pollution from Agricultural Activity.* Gwybodaeth am atal llygredd yn sgil gweithredoedd a gweithgarwch amaethyddol. Lawrlwythwch gopi am ddim o: <http://www.scotland.gov.uk/Publications/2002/08/15309/10495>

**Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD),** Ffôn: 028 9052 4999 neu [www.dardni.gov.uk](http://www.dardni.gov.uk)

*The Code of Good Agricultural Practice:* Lawrlwythwch gopi am ddim o:  
<http://www.dardni.gov.uk/index/publications/pubs-dard-environment/content-codeofgoodagripractice.htm>

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch,** Ffôn: 01787 881 165 neu [www.hse.gov.uk/](http://www.hse.gov.uk/)

- *Preventing Access to Effluent Storage and Similar Areas on Farms. HSE Information sheet AIS 9.* Lawrlwythwch am ddim o:  
<http://www.hse.gov.uk/pubns/ais9.pdf>

**ADAS,** Ffôn: 0845 766 0085 neu [www.adas.co.uk/](http://www.adas.co.uk/)

**Asiantaeth yr Amgylchedd,** Ffôn: 08708 506 506 neu [www.environment-agency.gov.uk/](http://www.environment-agency.gov.uk/)

**Y Consortïwm Cynnyrch Ffres,** Ffôn: 01733 237 117 neu [www.freshproduce.org.uk](http://www.freshproduce.org.uk)

**Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau**, Ffôn: 0808 100 2040 neu [www.wrap.org.uk](http://www.wrap.org.uk)

**Cymdeithas y Pridd**, Ffôn 0117 314 5000 neu [www.soilassociation.org/](http://www.soilassociation.org/)

**Cymdeithas Ailgylchu Organig**, Ffôn: 0870 160 3270 neu [www.organics-recycling.org.uk/](http://www.organics-recycling.org.uk/)

**Campden BRI**, Ffôn: 01386 842 000 neu [www.campden.co.uk](http://www.campden.co.uk)  
Darparu arweiniad ar HACCP ym maes Amaethyddiaeth a Garddwriaeth.

## ATODIAD 1: CNYDAU PAROD I'W BWYTA

Mae'r cnydau parod i'w bwyta a restrir isod yn rhai y gellid disgwyl yn rhesymol bod modd eu bwyta heb unrhyw brosesu pellach i leihau halogiad microbiologol, ar wahân eu golchi.

Prif Ffrwythau ac ati	Salad a Ffrwythau Meddal	Garddwriaeth
Prif ffrwythau* (afalau, gellyg ac ati) Ffrwythau carreg* (eirin, ceirios ac ati) Gwinwydd* Cnau*	Letys a salad deiliog Radis Winwns Ffa (gan gynnwys ffa dringo, ffa a ffa Ffrengig) Pys gwinwydd Pys yn eu codennau a werthir fel pys ffres Mangetout Bresych Blodfresych Calabrese/brocoli/cêl Courgettes Seleri Betys coch Moron Perlyisiau Asbaragws* Garleg Shibwns Sbinaets Sicori Seleriac Ffenigl Ffrwythau meddal* (cyrens ac aeron)	Cnydio a ddiogelir yn y pridd (gan gynnwys tomatos, ciwcymer, pupur, berwr ac ati) Madarch

**\*Gellir rhoi tail ffres ar dir cyn plannu ac yn ystod sefydlu'r cnydau lluosflwydd yn unig, cyn belled bod cyfnod o 12 mis o leiaf rhwng ei roi ar y tir a chynaeafu'r cnwd.**

Noder: Lle mae'n hollol hanfodol i'r system gynhyrchu, gellir rhoi tail wedi'i drin neu sydd wedi'i storio mewn swp (ond **nid** tail ffres) ar y tir i gyflenwi maetholion ar gyfer:

- cnydau tymor hir a ddiogelir (e.e. tomatos, pupur ac ati) yn ystod y cyfnod tyfu. Mae'n rhaid bod yn ofalus wrth roi tail wedi'i drin neu ei storio mewn swp ar dir i osgoi cysylltiad ag unrhyw ran o'r planhigyn. Hefyd, ni ddylai'r ffrwyth ddod i gysylltiad ffisegol â'r tail neu'r pridd.
- cnydau lluosflwydd fel ffrwythau, gwinwydd, cnau, asbaragws ac ati yn ystod y cyfnod cwsg, ond dim ond lle na fydd rhannau bwytdwy y cnwd mewn cysylltiad ffisegol â'r tail.

## RHEOLI TAIL FFERM AR GYFER DIOGELWCH BWYD

**Canllawiau ar gyfer tyfwyr i leihau'r risg o  
halogiad microbiolegol ar gnydau parod i'w bwyta**

**CAM 1: CYN SEFYDLU CNWD**

- Dewis y caeau'n ofalus i leihau'r risg o halogiad anuniongyrchol wrth i hylif redeg ar wyneb y tir o domennydd / storfeydd tail, ac yn ystod neu ar ôl i chi roi tail ar y tir
- Gallwch roi tail solid wedi'i storio mewn swp neu ei drin a slyri ar dir cyn drilio/plannu
- **Peidiwch** â rhoi tail solid ffres a slyri ar y tir o fewn **12 mis** i gynaeafu, gan gynnwys o leiaf **6 mis** cyn drilio/plannu
- **Peidiwch** â gadael i gaeau gael eu pori o fewn **12 mis** i gynaeafu, gan gynnwys o leiaf **6 mis** cyn drilio/plannu

**CAM 2: YN YSTOD Y TYMOR TYFU**

- **Peidiwch** â rhoi tail ar gnydau parod i'w bwyta ar ôl drilio/plannu
- Storiwch dail solid a slyri yn ddigon pell oddi wrth y mannau tyfu
- Rhaid osgoi halogi cnydau drwy haint yn cael ei gludo gan y gwynt neu aerosol wrth i chi roi tail ar y tir, neu wrth i hylif tail redeg o gaeau cyfagos lle cafodd tail ei roi.
- Gwnewch yn siŵr nad yw ffynonellau dŵr a ddefnyddir ar y fferm wedi'u heintio â thail neu ddŵr ffo
- Gofalwch fod pob offer, gan gynnwys cerbydau, yn lân
- Cadwch dda byw ac anifeiliaid anwes i ffwrdd o ardal y cnydau

**CAM 3: YN YSTOD AC AR ÔL CYNAEAFU**

- Ni ddylai pobl fwyta ffrwythau sydd wedi dod i gysylltiad â'r tir naill ai fel ffrwythau ffres neu sudd heb ei basteureiddio os yw da byw wedi pori mewn perllan o fewn **12 mis** i gynaeafu.
- Gofalwch fod pob offer (gan gynnwys cerbydau) a chratiau pacio ac ati yn lân
- Cadwch y da byw oddi wrth y mannau pacio a storio
- Gwnewch yn siŵr bod staff yn cadw at arferion glanweithdra da

**CAM 4: RHEOLI CYFFREDINOL**

- Dylech gynnwys trin a thrafod, storio a rhoi tail ar y tir yn nadansoddiad y fferm o beryglon diogelwch bwyd neu gynllun Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) ac o fewn asesiad Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH).
- Cadwch gofnod bob tro y byddwch yn rhoi tail ar gaeau a manylion am dda byw sy'n pori ar gaeau a ddefnyddir ar gyfer cnydau parod i'w bwyta.
- Bob tro y byddwch yn rhoi tail, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at y canllawiau yn y Codau perthnasol ar Arferion Amaethyddol Da.



- Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i bob cnwd parod i'w fwyta, ond efallai y bydd tyfwyr cnydau risg uwch, fel saladau dail bach, yn penderfynu defnyddio dulliau rheoli mwy llym.